

Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd
Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 2RU
Ffôn: 01824 703169
E-bost: llanfair.dc@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.ysgollanfairdc.cymru
Trydar: @ysgllanfairdc



Llanfair Dyffryn Clwyd Controlled School
Llanfair Dyffryn Clwyd
Ruthin
Denbighshire LL15 2RU
Phone: 01824 703169
Email: llanfair.dc@sirddinbych.gov.uk
Website: www.ysgollanfairdc.cymru
Twitter: @ysgllanfairdc

Helen Oldfield BA
Pennaeth

**Ysgol Reoledig
Llanfair Dyffryn Clwyd**

Helen Oldfield BA
Headteacher

Gwerth y tymor yma: Dewrder

This term's value: Courage

09/09/20

Annwyl Rien,

**Ni ddylech anfon plant i'r ysgol os ydyn nhw, neu unrhyw aelod o'r ty, yn dangos un o symptomau COVID19. Dylent aros adre, hunan ynysu a chael prawf. Rhaid i'r person sy'n dangos symptomau hunan ynysu am 7 diwrnod a phawb arall yn y ty am 14 diwrnod. Gweler y linc yma am fwy o wybodaeth -

<https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/testing-and-tracing/ask-for-a-test-to-check-if-you-have-coronavirus/>

Parcio Ceir: Er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n defnyddio'r maes parcio mae'n hanfodol mai dim ond cilfachau wedi'u marcio sy'n cael eu defnyddio i barcio ceir. Peidiwch â pharcio ar y palmant, glaswellt na baeau tacsï ar unrhyw adeg o'r dydd. Os yw'r maes parcio yn llawn, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n parcio'n ystyriol gan sicrhau nad ydych chi'n achosi anghyfleustra i unrhyw un o'n cymdogion.

Casglu'ch plentyn / plant o'r ysgol: Ar hyn o bryd mae giât yr ysgol yn agor am 3.05y.h os ydych chi'n casglu'ch plentyn o'r Feithrin neu'r derbyn a bod ciw, sefwch yn ôl i sicrhau pellter 2m er mwyn caniatáu i rieni eraill gerdded heibio i chi casglu eu plentyn o ddsbarthiadau eraill.

Sicrhewch eich bod yn gadael safle'r ysgol cyn gynted ag y byddwch wedi casglu'ch plentyn / plant. Peidiwch ag aros y tu mewn i iard yr ysgol, wrth giât yr ysgol neu yn y maes parcio i ffrindiau gasglu eu plant. **Dim ond un oedolyn i gasglu'ch plentyn o'r ysgol er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n teithio o amgylch safle'r ysgol.**

Er mwyn osgoi tagfa os bydd angen siarad ag athrawes eich plentyn, ffoniwch neu e-bostiwch swyddfa'r ysgol a byddwn yn trefnu bod yr athrawes yn cysylltu â chi.

Pwrpas y gweithdrefnau hyn yw sicrhau diogelwch eich plant. Mae'r ysgol wedi cael gwybod gan yr Awdurdod Lleol y bydd monitro lechyd a Diogelwch dirybudd i sicrhau bod ysgolion yn cadw at yr asesiad risg a gynhaliwyd.

Rwy'n siŵr y gallwch chi werthfawrogi bod hwn yn amser heriol i benaethiaid fel i bawb arall oherwydd COVID 19 gan ei fod yn dal i fod yn fygythiad real iawn yn ein cymuned. Rwy'n hollol ddibynol ar eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad i sicrhau bod disgyblion yn ailafael yn eu haddysg ffurfiol mewn amgylchedd diogel a hapus a bod yr ysgol yn aros ar agor.

Gyda diolch,
Helen Oldfield